| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **3 Gorffennaf 2013** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad / Y Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Tony Ward, Rheolwr Tîm Gwella Corfforaethol** |
| **Teitl:** | **Fframwaith Rheoli Risgiau Strategol** |

---

## 1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

1.1 Mae a wnelo'r adroddiad hwn â'r Fframwaith Rheoli Risgiau Strategol a ddefnyddir yng Nghyngor Sir Ddinbych. Mae'r fframwaith yn llywodraethu sut rydym yn rheoli risgiau ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth.

## 2. Beth yw'r rheswm am lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Rôl y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yw sicrhau bod gan y Cyngor system effeithiol ar waith i reoli risgiau'n effeithiol. Pan ddiwygiwyd y Fframwaith Rheoli Risgiau yn dilyn adolygiad o reoli risgiau strategol yn 2011-12, cytunwyd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor hwn bob blwyddyn i ddarparu sicrwydd bod y fframwaith yn rymus ac yn gweithio'n effeithiol. Mae'r adroddiad hwn yn amserol gan ei fod yn cyd-daro gyda chyhoeddiad adroddiad Archwilio Mewnol ar y broses rheoli risgiau, sydd hefyd wedi'i gynnwys yn y papurau ar gyfer y cyfarfod hwn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir bod yr Aelodau'n trafod yr adroddiad ac yn ystyried a oes angen unrhyw gamau pellach i roi sicrwydd am y fframwaith rheoli risgiau.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae'r Gofrestr Risg Corfforaethol yn galluogi'r cyngor i reoli tebygrwydd ac effaith y risgiau trwy werthuso effaith unrhyw ddulliau rheoli presennol, a thrwy gofnodi dyddiadau cau a chyfrifoldebau ar gyfer camau lliniaru pellach i alluogi rheolaeth dynnach.

4.2. Y Tîm Gweithredol Corfforaethol sy'n datblygu ac yn berchen ar y Gofrestr Risg Corfforaethol. Fe'i hadolygir yn ffurfiol ddwywaith y flwyddyn, ac mae'r broses ar gyfer adolygu fel a ganlyn:

- Adolygir cofrestrau risg gwasanaethau cyn pob adolygiad Cofrestr Risg Corfforaethol. Mae'r Tîm Gwella Corfforaethol yn dadansoddi cofrestrau

risg gwasanaeth i ddynodi risgiau o arwyddocâd corfforaethol neu unrhyw themâu sy’n dod i’r amlwg ar draws gwasanaethau.

- Cesglir diweddariadau ar risgiau corfforaethol cyfredol gan berchnogion risg, a chesglir diweddariadau ar gamau lliniaru gan berchnogion gweithredu.

- Cynhelir cyfarfodydd unigol gyda’r Prif Weithredwr a phob Cyfarwyddwr Corfforaethol i drafod y risgiau maent yn arwain arnynt. Rhoddir ystyriaeth o ran ydy’r risg yn parhau, ydy’r sgorau’n gywir, a oes angen camau pellach, ac a oes angen cynnwys unrhyw risgiau newydd yn eu portffolios.

- Cynhelir gweithdy risg gyda’r Tîm Gweithredol Corfforaethol i adolygu’r risgiau presennol; trafod cynnydd ar gamau lliniaru sydd wedi’u cytuno; trafod a chytuno risgiau corfforaethol newydd; adolygu a diweddaru sgorau risgiau anodd cael gwared arnynt; diweddaru’r dulliau rheoli presennol (yng ngoleuni camau wedi’u cwblhau); a chytuno unrhyw gamau newydd y mae eu hangen i liniaru risgiau. Yn y dyfodol, bydd y gweithdy hwn yn cael ei gynnal mewn Gwybodaeth i’r Cabinet i sicrhau bod Aelodau Arweiniol (a chanddynt berchenogaeth wleidyddol ar y risgiau corfforaethol) yn cymryd rhan yn llawn yn y broses.

4.3 Er bod y Gofrestr Risg Corfforaethol ond yn cael ei hadolygu’n ffurfiol gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol ddwywaith y flwyddyn, deuir ag unrhyw risgiau arwyddocaol newydd neu sy’n dwysáu i sylw’r Tîm Gweithredol Corfforaethol (trwy’r Tîm Gwella Corfforaethol) pan gânt eu dynodi. Wedyn, mae’r Tîm Gweithredol Corfforaethol yn llunio barn o ran a ddylid cynnwys y risgiau hynny yn y Gofrestr Risg Corfforaethol ai peidio.

4.4 Yn dilyn pob adolygiad ffurfiol o’r Gofrestr Risg Corfforaethol (ddwywaith y flwyddyn), cyflwynir y ddogfen ddiwygiedig i’r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a chaiff ei harchwilio ganddo. Cafwyd rhywfaint o drafod yn ddiweddar (yn dilyn yr adroddiad Archwilio Mewnol ar reoli risgiau) o ran ai Archwilio Perfformiad neu’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yw’r fforwm cywir i archwilio manylder y Gofrestr Risg Corfforaethol. Bydd y mater hwn yn cael ei drafod gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio ar 27 Mehefin 2013. Mae fersiwn ddiweddaraf y Gofrestr Risg Corfforaethol, a gyflwynwyd i’r Pwyllgor Archwilio Perfformiad ar 20 Mehefin 2013, ynghlwm yn Atodiad I er gwybodaeth.

4.5 Mae’r camau a nodwyd i fynd i’r afael â risgiau corfforaethol yn cael eu cynnwys mewn Cynlluniau Gwasanaeth, lle bo’n briodol, sy’n galluogi’r Pwyllgor Archwilio Perfformiad i fonitro cynnydd. Wedyn, gall yr Aelod Archwilio Perfformiad a enwebwyd ar gyfer y Gwasanaeth hwnnw herio unrhyw faterion perfformiad mewn perthynas â chyflawni’r gweithgareddau hyn.

4.6 Mae swyddogaeth Archwilio Mewnol y cyngor yn darparu sicrwydd annibynnol ar effeithiolrwydd y gweithdrefnau a’r mecanweithiau rheoli mewnol sydd ar waith i liniaru risgiau ar draws y cyngor. Mae’n cynnig her annibynnol hefyd i sicrhau bod yr egwyddorion a’r gofynion rheoli risgiau’n cael eu mabwysiadu’n

gyson ar hyd y cyngor. Mae Archwilio Mewnol yn defnyddio gwybodaeth o'r cofrestrau risg gwasanaeth a chorfforaethol i lywio'i flaenraglen waith. Mae'r adroddiad Archwilio Mewnol diweddar ar reoli risgiau (wedi'u cynnwys yn y papurau ar gyfer y cyfarfod hwn) yn casglu:

> "Mae'r fframwaith rheoli risgiau wedi'i saernïo'n dda ac mae'r trosglwyddiad i'r prosesau diwygiedig dros y 12 mis diwethaf wedi'i gyflawni'n llyfn. Ar lefel gorfforaethol, rheolir y risgiau'n dda ond mae angen rhagor o welliannau i gysylltu aelodau etholedig yn well yn y broses ac i rai gwasanaethau ystyried sut i ymgorffori'r gwaith rheoli risgiau'n fwy yn eu gweithgareddau 'busnes yn ôl yr arfer'."

4.7 Dynodwyd pedwar mater yn yr adroddiad Archwilio Mewnol. Fodd bynnag, mae modd mynd i'r afael â'r materion hyn yn gymharol hawdd, a bydd y camau a ddynodwyd yn y cynllun gweithredu'n cael eu cwblhau erbyn mis Hydref 2013. Fel y datganwyd yn gynharach, mae'r adroddiad Archwilio Mewnol, gan gynnwys y cynllun gweithredu, wedi'u cynnwys yn y papurau ar gyfer y cyfarfod pwyllgor hwn.

4.8 Ym mis Mai 2012, lluniodd y Tîm Gwella Corfforaethol Adroddiad Cau Prosiect ar gyfer adolygu rheoli risgiau strategol a oedd yn gwerthuso'r manteision a gyflawnwyd o brosiect 2011-12. Mae'r adroddiad hwn (sydd ynghlwm yn Atodiad II) yn dangos yn glir fod y fframwaith rheoli risgiau newydd wedi cyflwyno manteision yn y cam cynnar hwnnw hyd yn oed. Mae'r broses rheoli risgiau wedi cael ei hymgorffori'n fwy ers yr adolygiad hwnnw fel y tystiwyd gan ansawdd gwell y cofrestrau eu hunain. Yn ogystal, mae'r cysylltiadau rhwng risg gwasanaeth a chorfforaethol yn llawer cryfach nag oedden nhw nôl ym mis Mai 2012.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Pwrpas y Gofrestr Risg Corfforaethol yw dynodi darpar ddigwyddiadau i'r dyfodol a allai gael effaith andwyol ar allu'r cyngor i gyflwyno'i amcanion, gan gynnwys ei flaenoriaethau corfforaethol. Felly, mae'r dulliau rheoli dynodedig a chamau gweithredu'n hollbwysig i gyflwyno'r blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Beth fydd y gost a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Caiff y gost o ddatblygu, monitro ac adolygu'r cofrestrau risg corfforaethol a gwasanaeth eu hamsugno yn y cyllidebau presennol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a wnaed ar y penderfyniad? Dylid cysylltu templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb gorffenedig fel atodiad i'r adroddiad.

7.1. Mae'r Gofrestr Risg Corfforaethol hon yn dogfennu risgiau a ddynodwyd, dulliau rheoli presennol a chamau lliniaru arfaethedig. Nid yw'r broses o ddatblygu ac adolygu'r ddogfen yn effeithio'n andwyol ar bobl gyda nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, dylai unrhyw broses, strategaeth neu bolisi newydd sy'n codi o ganlyniad i gam lliniaru gael ei effaith ar gydraddoldeb wedi'i hasesu ar lefel cyflwyno gwasanaeth.

**8. Pa ymgyngoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Mae manylion y broses ymgynghori i adolygu'r Gofrestr Risg Corfforaethol wedi'u cynnwys ym mharagraffau 4.2 – 4.5.

**9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nid oes goblygiadau ariannol yn codi o'r broses a amlinellir yn yr adroddiad hwn i ddatblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risg Corfforaethol.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Y brif risg sy'n gysylltiedig â'r broses rheoli risgiau yw nad yw'r cofrestrau'n cael eu hadolygu'n gyson ac felly nid ydynt yn mynd yn arf rheoli deinamig ac ystyrlon. Fodd bynnag, caiff y broses newydd ei hintegreiddio'n llawn yn fframwaith rheoli perfformiad y cyngor, a ddylai sicrhau nad yw hyn yn digwydd. Bydd y camau a nodwyd i fynd i'r afael â'r materion yn yr adroddiad Archwilio Mewnol ar reoli risgiau'n gwella hyn ymhellach.

**11. Y Grym i wneud y Penderfyniad**

- Deddf Llywodraeth Leol 2000.
- Erthygl 6 Cyfansoddiad y Cyngor
- Cod Llywodraethu Corfforaethol

**Swyddog Cyswllt:**
Tony Ward, Rheolwr Tîm Gwella Corfforaethol
Ffôn: 07825451448